trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid

Cylchlythyr
Rhif 2

Mehefin 2008

Enw newydd i'r grŵp.

Yn ein cyfarfod gweddi diwethaf, bum yn trafod y ddau grŵp astudiaeth Beibl newydd yr ydym yn eu rhedeg, a ddeilliodd o gwrs a fu'n rhedeg yn ystod tymor yr hydref, o'r enw '*Emerge*'. Penderfynwyd enwi'r ddau grwp yn hynny hefyd, ond nid oeddem yn gallu meddwl am enw Cymraeg iddynt. Ers hynny, rydym wedi canfod bod sefydliad o'r un enw yn bodoli eisoes, felly bu'n rhaid newid yr enw. O hyn ymlaen, enw'r grŵp fydd 'Cyswllt', neu yn Saesneg, 'Connect'.

Deunyddiau ar gyfer grwpiau ieuenctid.

Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn gweithio ar lyfr adnoddau a fydd yn cael ei gyhoeddi gan yr Eglwys Bresbyteraidd a Chyngor Ysgolion Sul Cymru. Bydd y llyfr yn cynnwys rhwng 25-30 sesiwn ar gyfer grwpiau ieuenctid, taflenni gwaith, a syniadau am gemau i'w chwarae yn ystod sesiynau, clipiau fidio y gellir eu defnyddio, a chanllawiau ar sut i sefydlu grŵp ieuenctid CIC. Mae'r prosiect yn un cyffrous iawn, ac rydym yn gobeithio gorffen y llyfr cyn gynted â phosib er mwyn ei gyhoeddi a'i ddosbarthu i grwpiau er mwyn iddynt ei ddefnyddio. Rydym wedi defnyddio rhai o'r sesiynau ein hunain er mwyn profi a ydynt yn effeithiol ai peidio, a byddwn yn defnyddio'r adnodd hwn gyda'n holl grwpiau CIC o fis Medi ymlaen. Gan fod gennym grwpiau newydd yn dechrau ym mis Medi, rydym am gynnal sesiynau hyfforddi i'r nifer fawr o wirfoddolwyr sydd gennym a chyflwyno'r adnodd hwn iddynt. Ein bwriad yw bod pob grŵp yn gweithio ar yr un thema, fel bod modd asesu yr hyn y mae pawb yn ei wneud, ac yna'n gallu cyflwyno sesiynau adborth ar ddiwedd y tymor.

A wnewch chi weddio dros:

- Yr Undebau Cristnogol yn Ysgolion Glan y Môr, Eifionydd a Botwnnog.
- Grwpiau CIC ym Morfa Nefyn, Botwnnog, Chwilog, Llithfaen, Pwllheli a Porthmadog.
- Paratoadau'r twrnament pêl-droed, ac am dimau i gymryd rhan.
- Y Grŵp 'Cyswllt'
- Y Llyfr Adnoddau.

Anghofiwch am Ewro 2008, CIC 2008 sy'n bwysig!

Efallai eich bod yn meddwl fod cystadleuaeth fawr y flwyddyn yn cychwyn yr wythnos hon wrth feddwl am Ewro 2008, ond na, mae yna un llawer pwysicach! Ar y 10fed o Orffennaf, bydd twrnament pêl-droed CIC yn cychwyn ym Motwnnog. Does yna ddim 'qualifiers' er mwyn cystadlu yn y twrnament, felly bydd ein hoff dimau yno i gyd! Rydym yn hapus iawn o fod yn rhan o drefnu'r digwyddiad hwn, ac yn edrych ymlaen yn fawr iawn at y twrnament. Pêl-droed pump-bob-ochr ydyw, a does dim cyfyngder ar y nifer o eilyddion, bydd yn cychwyn am 5.30yh ar gaeau Ysgol Botwnnog. Cystadleuaeth i fechgyn yn unig ydyw; bechgyn blynyddoedd 7-9, ond mae croeso i fechgyn hŷn ymuno â ni os ydynt am hyfforddi tîm. Dim merched, oni mai eu bod wedi dod â thîm gyda nhw neu yno i helpu i baratoi'r barbeciw ar ddiwedd y twrnament. Os oes gennych ddiddordeb dod â thîm gyda chi, neu'n gallu gwirfoddoli i ddyfarnu neu goginio, yna cysylltwch â John os gwelwch yn dda, un ai drwy e-bost: settatree@hotmail.com, neu ei ffonio ar 01766 810340 erbyn y 3ydd o Orffennaf.

Cyfarfodydd Undeb Cristnogol yn Ysgolion Glan y Môr a Botwnnog

Ni fu hi'n bosib i ni gynnal cyfarfodydd Undeb Cristnogol yn y ddwy ysgol hon yn ystod y misoedd diwethaf, yn gyntaf am eu bod yn ailwneud y llyfrgell yn Ysgol Glan y Môr, ac yn achos Botwnnog, disgyblion blwyddyn 11 oedd yn mynychu ac roeddent wedi gadael adeg y Pasg. Byddwn yn ail-gychwyn yn Glan y Môr yn ystod yr wythnosau nesaf, felly gobeithiwn yn fawr y bydd yn llwyddiant gan nad ydym wedi bod yno ers tro. Penderfynwyd ail-gychwyn ym Motwnnog, gyda chaniatâd y Prifathro, gyda'r tymor newydd ym mis Medi, sy'n ein galluogi, dros yr haf, i baratoi rhaglen dda ar gyfer y cyfarfodydd newydd.

Hoffech chi gefnogi trobwynt ?

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd
Tabor
Llithfaen
Pwllheli
LL53 6NL Rhif Ffôn: 01758 750202